

AGWEDDAU ANGHEUOL

Ymdrecha *AGWEDDAU ANGHEUOL* i archwilio'r gweithiau celf a diwylliannau sy'n gefndir i'r artistiaid sydd yn portreadu marwolaeth trwy emosiynau annisgwyl, yn gwyro oddi ar y galaru a thristwch arferol sy'n aml yn cael ei chynrychioli mewn diwylliannau Gorllewinol. Drwy gydol yr arddangosfa, fydd y gwyliwr yn cael eu herio i gwestiynu canfyddiadau a'u hemosiynau nhw ynglŷn â marwolaeth. Byddan nhw yn cael eu hwynebu hefo diwylliannau a safbwyntiau sydd o bosib yn anghyfarwydd ac anghyfforddus iddyn nhw.

Mae'r arddangosfa yn cynnwys gweithiau a chyfryngau amrywiol o'r byd celf gyfoes, ac o gyfnodau sy'n llai cyfarwydd i ni. Mae agweddau tuag at y meirw wedi newid dros y canrifoedd, ac mae'n amrywio o wlad i wlad. Deillia'r gwaith yn yr arddangosfa hon o ddiwylliannau o bedwar ban y byd er mwyn amlygu hyn. Cynhwysir gwaith hanesyddol o'r oes Fictoria, darlun o'r 19eg ganrif gan Hugo Simberg, gwaith cyfoes, modern ac arbrofol gan John-Peter Witkin, Araya Rasdjarmrearnsook a Frida Kahlo a chrochenwaith cofiannol gan Julian Stair.

Mae damcaniaethau o lyfr *Camera Lucida* (1981) gan Roland Barthes, yn ogystal â *The Body and The Archive* (1986) gan Allan Sekula yn berthnasol i'r arddangosfa. Mae'r damcaniaethau yma yn archwilio'r effaith mae marwolaeth wedi cael ar yr artistiaid, a pha bersbectif ar farwolaeth maen nhw yn arddangos yn eu gwaith o ganlyniad.

Dangosa'r arddangosfa fod marwolaeth yn thema berthnasol yn y byd celf gan ei fod yn bresennol ar draws y byd, dros bob un cyfnod a diwylliant. Bwriad yr arddangosfa yw ei fod o'n hagar llygaid y gwylwyr i'r holl bortreadau o farwolaeth, ac o bosib byddant yn gadael hefo agwedd wahanol ohono.

Mae'r arddangosfa yn cael ei leoli yn 'The Crypt Gallery' yn Llundain, sy'n uniongyrchol yn gysylltiedig â marwolaeth. Mae'r ffaith ei fod o'n ofod tanddaearol yn ychwanegu at yr awyrgylch iasol, ac felly yn pwysleisio ystyr yr arddangosfa.

Mae'n bosib gweithredu damcaniaeth Roland Barthes o'i lyfr *Camera Lucida* (1981) i'r gweithiau celf yn yr arddangosfa yma. Mae'r llyfr wedi'i seilio ar syniad Barthes fod dau ymateb posibl i gelf, a fathodd o'r termau Studium a Punctum. Yn fyr, y Studium yw eich

ymateb dysgedig a gwybodus i gelf. Felly, mae eich addysg ac eich profiadau yn effeithio yn uniongyrchol ar sut rydech chi'n derbyn y gwaith, yn ogystal â'r wybodaeth sydd yn dod hefo'r gwaith. Yn gyferbyniol i hyn, y Punctum yw'r ffordd mae unigolyn yn ymateb i gelf trwy emosiwn yn unig. Nid yw addysg na gwybodaeth yn effeithio ar sut rydych yn teimlo am y gelf.

Yn yr arddangosfa, gallwch ddadlau fod peth o'r gwaith celf yn adlewyrchu agwedd digynnwrf yr artistiaid tuag at y meirw; efallai 'ymatebion *Studium*'. Mae'r ymwahaniad rhwng yr enaid a'r corff yn cael ei amlygu yng ngwaith Aray Rasdjarmreamsook a Joel-Peter Witkin. Mae'r gweithiau yma yn ddiuedd; hynny yw, mae nhw'n trin y corff mwy fel gwrthrych na pherson.

Mae *The Kiss* gan Joel-Peter Witkin yn ddarn sy'n trin corff mewn ffordd enwedig o ddigynnwrf. Cafodd y print 'bromoil gelatin arian' ei greu yn 1982, ac mae'n dangos pen dyn ymadawedig mae Witkin wedi torri a llurgunio i edrych petai ddau hanner y pen yn cusanu ei gilydd.




Ffig 1. John-Peter Witkin, *Le Baiser (The Kiss)*, 1982

Byddai Witkin wedi gorfod ymdrin â'r corff celain mewn ffordd ddigynnwrf gan ei drin fel gwrthrych - nid person - mae hyn yn adlewyrchol o syniad Barthes o'r *Studium*, gan fod rhaid iddo drin y corff mewn ffordd fwy gwyddonol, yn lle yn deimladol. Ond Gallai'r llun yma cynhyrchu plereth o ymatebion sydd yn fwy adlewyrchol o'r *Punctum*. Efallai bydd rhai pobl yn cael ymatebion cyfogledd neu ofidus i'r llun, er bod o'n darlunio emosiwn cariadus. Gallai'r

agweddau yma gwrthdaro gan achosi i'r gwylwyr teimlo dryswch mewn ymateb i'r llun, ac o ganlyniad ddysgu rhywbeth newydd am sut gallai marwolaeth cael ei ymdrin.

Mae *The Kiss* yn adlewyrchol o'r ymarferiad archifol mae Allan Sekula yn ysgrifennu amdano yn ei lyfr *The Body and The Archive*. Ynddo, mae o'n sôn am lyfr Charles Marie Debierre, "*Le crane des criminels*" o 1895, sydd â ffotograffau o bennau toredig troseddwy. (Sekula, 1986) Cafodd y ffotograffau eu creu a'u defnyddio fel 'samplau' - nid oeddent i fod i gael eu gweld fel celf - yn wahanol i waith Wiktin sydd yn gelf fwriadol. Er ei fod yn gelf, mae penderfyniad Wiktin i ddefnyddio proses ffotograffig hen du a gwyn i gymryd y llun yn atgoffaol o'r samplau o 1895. Yn ogystal, mae'n trin y pennau mewn ffordd ddigynnwrf. Er hyn oll, mae Wiktin yn ychwanegu elfen o emosiwn sydd yn gwahanu ei waith o'r lluniau archifol yma.



"From Charles Marie Debierre, *Le crane des criminels*" (Sekula, 1986, p. 39)

Mae lluniau hanesyddol "memento mori" o'r oes Fictoria yn atgoffaol iawn o'r lluniau o "*Le crane des criminels*" (Sekula, 1986), gan fod y meirw yn cael eu trin mewn ffordd debyg, ond hefo elfen ychwanegol addfwyn. Yn y darlun yma o 1844, gwelwn bortread proffil ochr 'post-mortem' o ferch George Barker, capten llong ym Mangor. (Maine Historical Society, n.d.)



Ffig 2. Darlun 'daguerreotype' o Mrs. Henry William Herbert ca. 1844

Er bod y ferch wedi marw, mae hi'n edrych yn heddychlon, ac mae awgrymiad o wen ar ei gwefusau. Mae'n gysyniad rhyfedd i ni yn y 21fedC i anfarwoli'r olygfa o rywun ar ôl iddyn nhw farw, yn hytrach na pan roedden nhw dal yn fyw. Mae bron fel dogfennaeth o'r meirw, ac o bosib yn gyfle i gofio person lle nad oedd lluniau ohonyn nhw pan oedden nhw yn fyw. "Every portrait implicitly took its place within a social and moral hierarchy." (Sekula, 1986, p. 10) Mae'r syniad yma yn adlewyrchu'r dewis i bortreadu marwolaeth y ferch mewn ffordd heddychlon, er mwyn ei pharchu. Gallai golwg tangnefeddus y ferch rhoi ychydig o obaith i'r gwylwyr - mae'n darparu esiampl o farwolaeth sydd ddim yn ddychrynlllyd nag erchyll.

Mae teimlad tebyg i *The Kiss* i'w weld yn *The Class* gan Araya Rasdjarmrearnsook. Yn y fideo 16 munud 30 eiliad mae Rasdjarmrearnsook yn "dysgu" chwe chorff sydd heb gael eu hawlio, am farwolaeth (Mori Art Museum, n.d.) Dydy Rasdjarmrearnsook yn amlwg ddim yn rhoi darlith i unrhyw un mewn gwirionedd, gan nad ydan nhw yn gallu gwrando nac ymateb, ond mae hi'n dangos parch tuag atynt er nad ydy cymdeithas yn hawlio'r cyrff mewn ffyrdd arferol. Trwy ymddwyn fel petai nhw'n fyw a thrwy geisio rhesymoli marwolaeth o nifer o safbwyntiau, mae Rasdjarmrearnsook yn cymryd agwedd atgoffaol o *Stadium* (Barthes, 1981).



Ffig 3. Araya Rasdjarmrearnsook, *The Class*, 2005, fideo, lliw, sain, 16 munud 30 eiliad.

Er bod agwedd Rasdjarmrearnsook tuag at y meirw yn ddigynnwrf, mi fyddai'r *Punctum* o wyllo'r fideo mwy na thebyg yn ennyn teimladau annifyr ac anghyfforddus i wylwyr, gan fod cyrff y meirw yn gorwedd yn hollol lonydd a ddistaw ar hambwrdd. Mae'r gwaith yma yn cyflwyno agwedd sy'n anghyfarwydd i ddiwylliant y Gorllewin, gan ei fod yn trin marwolaeth mewn ffordd resymegol ac yn cyflwyno gwahanol safbwyntiau gallai'r gynulleidfa uniaethu gyda.

Er bod *The Kiss* a *The Class* yn cynrychioli agweddau digynnwrf tuag at farwolaeth neu'r meirw, mae'r darnau eraill yn yr arddangosfa yn dangos agweddau gwahanol. Enghraifft sy'n portreadu teimladau mwy gobeithiol tuag at farwolaeth yw darn 1896 Hugo Simberg, *The Garden of Death*.



Ffig 4. Hugo Simberg, *The Garden of Death*, 1896

Mae'r Angau fel creadur yn aml yn cael ei bortreadu mewn ffyrdd negyddol. Yn *The Garden of Death*, darlun dyfrlliw a gouache, mae Simberg yn dangos ei ddehongliad o Angau wedi'i bersonoli. Yn y darlun, ryden ni'n gweld tri sgerbwd mewn clogyn du yn garddio. Mae un sgerbwd yn cael ei ddangos yn dal planhigyn mewn ffordd dyner tra mae un arall yn dyfrio blodau; mae bywyd yn cael ei ddehongli fel planhigion. Mae Simberg yn gweld yr Angau fel creadur neu greaduriaid sydd yn caniatáu ein magwraeth ac ailnedigaeth.

Mae gwaith Julian Stair hefyd yn awgrymu ryw fath o ailnedigaeth i'r meirw. Creodd o ddarnau serameg mewn ymateb i'r pandemig - yrnau oedd yn cynrychioli ffigyrau dynol, sy'n amrywio mewn maint. *"Stair's new forms[...]invite the viewer to meditate on the intimate relationship between the clay vessel and the human body."* (Julian Stair, 2023)



Ffig 5. Julian Stair, *Art, Death and the Afterlife*, 2023

Er mai yrnau ydan nhw, nid yw'r lludw ar y tu fewn - cymysgodd Stair lludw'r meirw mewn i'r clai. Gallai'r yrnau yma gynrychioli bywyd newydd, gan eu bod nhw wedi cael eu trawsnewid i fod yn yrnau; a dyden nhw ddim yn gyfyng nac yn gaeth tu mewn iddyn nhw. Fel gwaith Simberg, mae gwaith y prosiect yma yn ceisio rhoi cysur i anwyliaid y meirw ac efallai i bobl sy'n ofni marwolaeth.

Mae penglogau yn symbol cyffredin o farwolaeth, fel gwelwn mewn “The Garden of Death” gan Simberg - mae cynrychiolaeth o’r symbol yma yn hun-ddarlun Frida Kahlo, “Thinking About Death” o 1943.




Fig 6. Frida Kahlo, *Thinking About Death*, 1943

Gwelwn Frida yn syllu yn syth at y gwylwr, gyda chefnidir o dail a drain coch yn ei chaethiwo hi. Ar ei thalcen, mae delwedd gylchol gyda phenglog ac esgyrn o flaen tirwedd sy’n cynrychioli ffenestr mewn i feddwl yr artist. Oherwydd y dail a’r drain pigog, mae Kahlo yn gaeth i feddwl am farwolaeth. Yn y llyfr *Frida Kahlo - The Paintings* (Herrera, 1992), mae ei gwrthdrawiad hefo marwolaeth yn cael ei ddisgrifio fel anhraethadwy. “Frida’s confrontation with death is almost Egyptian in its imperturbability.” (Herrera, 1992)

Mae bywyd caled Kahlo yn esbonio creadigaeth y darn yma - roedd gan angau bresenoldeb cryf drwy gydol ei bywyd ac roedd hi hefyd ar adegau yn meddwl am hunan laddiad. Er hyn, mae ei gwaith yn bwerus iawn ac yn dangos angerdd mawr tuag at ystod o themâu, gan gynnwys marwolaeth. Gallai’r gwylwyr profi teimladau cymysg hefo marwolaeth wrth astudio’r darn yma.

I orffen, mi fydd mynychwyr yr arddangosfa yn cael eu hwynebu hefo croesdrawiad o agweddau tuag at farwolaeth yn y celfyddydau. Wrth adael, efallai byddan nhw’n ystyried eu

marwoldeb, a theimlo'n fwy cyfforddus ynddo. Gallen nhw teimlo'n fwy agored i ystyried gwahanol safbwyntiau ynglŷn â marwolaeth, gan neud yr arddangosfa yn brofiad sy'n aros yn y meddwl.

CYNLLUN LLAWR AGWEDDAU ANGHEUOL

The Crypt Gallery yn Llundain




Fig 1. John-Peter Witkin, *Le Baiser* (The Kiss), 1982
Print bromoil gelatin arian
37.1 x 37.5 cm



Fig 2. Darlun o Mrs. Henry William Herbert
ca. 1844
Daguerreotype



Fig 3. Araya Rasdjarmrearnsook, *The Class*, 2005
Projector



Fig 4. Hugo Simberg, *The Garden of Death*, 1896
Dyfrlli a gouache
16 x 17 cm



Fig 5. Julian Stair, *Art, Death and the Afterlife*, 2023
Serameg a lludw



Fig 6. Frida Kahlo, *Thinking About Death*, 1943
Olew, masonite
44.5 x 37 cm

Rhestr Gyfeirio

Artchive, n.d. *Artchive*. [Ar lein]

Ar gael yn: <https://www.artchive.com/artwork/thinking-about-death-frida-kahlo-1943/>
[Cyrchwyd 26 March 2026].

Barthes, R., 1981. *Camera Lucida*. First American Edition ed. s.l.:Hill and Wang.

Herrera, H., 1992. *Frida Kahlo The Paintings*. First Edition ed. Great Britain: Bloomsbury Publishing Ltd.

Julian Stair, 2023. *Julian Stair*. [Ar lein]

Ar gael yn: <https://www.julianstair.com/art-death-and-the-afterlife>
[Cyrchwyd 25 March 2026].

Maine Historical Society, n.d. *Maine Memory Network*. [Ar lein]

Ar gael yn t: <https://www.mainememory.net/record/49706/image/49706>
[Cyrchwyd 24 March 2026].

Mori Art Museum, n.d. *Mori Art Museum*. [Ar lein]

Ar gael yn: <https://www.mori.art.museum/en/collection/2337/index.html>
[Cyrchwyd 24 March 2026].

Nunez, R., 2015. *Norman Rockwell Museum*. [Ar lein]

Ar gael yn: <https://rockwellcenter.org/student-research/the-beauty-on-the-ugly-the-kiss-joel-peter-witkin/>
[Cyrchwyd 23 March 2026].

Praepipatmongkol, C., n.d. *Art Forum*. [Ar lein]

Ar gael yn: <https://www.artforum.com/events/araya-rasdjarmrearnsook-4-210300/>
[Cyrchwyd 24 March 2026].

Rago/Wright/LAMA/Toomey & Co., n.d. *Artsy*. [Ar lein]

Ar gael yn: <https://www.artsy.net/artwork/joel-peter-witkin-le-baiser-the-kiss>
[Cyrchwyd 23 March 2026].

Sekula, A., 1986. *The Body and The Archive*. pp. 3-64 (62 pages) ed. s.l.:The MIT Press.

Rhestr o ffigyrau

Ffig 1.

Rago/Wright/LAMA/Toomey & Co., n.d. *Artsy*. [Online]

Ar gael yn: <https://www.artsy.net/artwork/joel-peter-witkin-le-baiser-the-kiss>

[Wedi cyrchu 23 Mawrth 2026].

Ffig 2.

Maine Historical Society, n.d. *Maine Memory Network*. [Online]

Ar gael yn: <https://www.mainememory.net/record/49706/image/49706>

[Wedi cyrchu 24 Mawrth 2026].

Ffig 3.

Praepipatmongkol, C., n.d. *Art Forum*. [Online]

Ar gael yn: <https://www.artforum.com/events/araya-rasdjarmrearnsook-4-210300/>

[Wedi cyrchu 24 Mawrth 2026].

Ffig 4.

Google Arts and Culture, n.d. *Google Arts and Culture*. [Online]

Ar gael yn: <https://artsandculture.google.com/asset/the-garden-of-death-hugo-simberg/gQHpgSZmOytvQ?hl=en>

[Wedi cyrchu 23 Mawrth 2026].

Ffig 5.

Julian Stair, 2023. *Julian Stair*. [Online]

Ar gael yn: <https://www.julianstair.com/art-death-and-the-afterlife>

[Wedi cyrchu 25 Mawrth 2026].

Ffig 6.

Artchive, n.d. *Artchive*. [Online]

Ar gael yn: <https://www.artchive.com/artwork/thinking-about-death-frida-kahlo-1943/>

[Wedi cyrchu 26 Mawrth 2026].

Nifer o eiriau (heb gynnwys cyfeiriadau): 1620 o eiriau

Cydnabyddiaeth AI:

Rydw i'n cadarnhau nad ydw i wedi defnyddio unrhyw cymorth AI i greu'r traethawd yma.

Rydw i'n cadarnhau nad ydw i wedi cyflwyno unrhyw destun AI fel gwaith fy hun.

Rydw i'n cadarnhau fod gennai copïau o fy nrafftiau, nodiadau, ac adnoddau rydw i wedi defnyddio.

Lisa Page

Ebrill 2026